

ADRAN A

1. Mae Gareth Bale yn boblogaidd ar draws y byd.
Darllenwch ychydig amdano.

[7]

Gareth Bale is very popular all over the world.

Read a little about him below.



GARETH BALE

Shwmae, Gareth Bale ydw i. Ces i fy ngeni yng Nghaerdydd ar yr 16eg o fis Gorffennaf, 1989. Rydw i'n byw gyda fy ngwraig Emma yn Madrid, Sbaen. Rydw i'n chwarae pêl-droed dros Real Madrid a Chymru.

Rydw i'n dwli ar bob math o chwaraeon ond yn enwedig chwarae golff a nofio i gadw'n heini. Gwaetha'r modd, rydw i'n casau pêl-rwyd achos mae'n ddiflas iawn.

(i) Beth ydy barn Gareth am y chwaraeon yma? Ticiwch (✓) y bocs priodol.

	😊😊😊😊	😊😊😊	😊😊	(1)
Golff				(1)
Pêl-rwyd				(1)
Nofio				(1)

(ii) P'un sy'n gywir? Ticiwch (✓) i ddangos yr ateb cywir. (2)

Mae Gareth yn hoffi chwarae pêl-rwyd.	✓
Mae Gareth yn casau chwarae golff.	
Mae Gareth yn dwli ar nofio.	

(iii) P'un sy'n gywir? Ticiwch (✓) i ddangos yr ateb cywir. (2)

Mae Gareth yn chwarae dros Gymru yn unig.	✓
Mae Gareth yn chwarae dros Real Madrid a Chymru.	
Mae Gareth yn chwarae dros Real Madrid yn unig	


ADRAN A

2. (i) Mae llawer o bobl enwog yn dod o Gymru. Darllewch sylwadau Kelly Jones a Alex Jones a llenwch y grid **yn Gymraeg**.

[9]

*Many famous people come from Wales. Read Kelly Jones' and Alex Jones' comments and fill in the grid in **Welsh**.*

Es i i Ysgol Gyfun Blaengwawr yn Aberdar. Roedd yr ysgol yn sbwriel ond roedd hi'n llawer o hwyl. Roeddwn i'n dwli ar yr ysgol yn enwedig Cerddoriaeth. Doeddwn i ddim yn hoffi Gwyddoniaeth achos roedd hi'n ddiflas.



Es i i Ysgol Gyfun Maes Yr Afon yn Rhydaman. Roedd yr ysgol yn ardderchog. Roeddwn i'n hoffi'r ysgol achos roedd hi'n addysgiadol. Fy hoff bwnc i oedd Drama achos roedd hi'n anhygoel.



	Kelly Jones	Alex Jones
Ysgol ble?		
Hoffi ysgol—Pam?		

[2]

[2]

(ii) Ydych chi'n hoffi'r ysgol?

[5]

Rhowch 2 reswm **yn Gymraeg**.

*Give 2 reasons in **Welsh***

Ydych chi'n hoffi'r ysgol?

_____ (1)

Rheswm 1 :

_____ (2)

Rheswm 2 :

_____ (2)

3. Darllenwch y gerdd yn ofalus. Read the poem carefully.

(19)

Chwaraeon

Mae Siân yn hoffi criced
 Mae John yn hoffi nofio
 Mae Sam yn hoffi dartiau
 Mae Marc yn hoffi syrffio

Mae Will yn hoffi pêl-droed
 Mae Dai yn hoffi sgio
 Mae Twm yn hoffi tennis-bwrdd
 Mae Huw yn hoffi bowlio.

(i) Pa luniau sy'n addas i'r gerdd? *What pictures are suitable for the poem?*

(3)



(ii) Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir. *Put a circle around the correct answer.*

(10)


Beth mae John yn hoffi?	criced	dartiau	nofio (1)
Beth mae Sam yn hoffi?	criced	dartiau	nofio (1)
Mae Dai yn hoffi sgio	Cywir	Anghywir	Ddim yn gwybod (1)
Am faint o bobl mae'r	6	7	8 (1)
Ble mae'r odl?	Dartiau/ syrffio	Nofio/ dartiau	Sgio/ bowlio (1)

Mae'r gerdd yn siarad am chwaraeon dŵr. Ydy/ Nac ydy (1)

Mae'r gerdd yn siarad am fechgyn ac un merch. Ydy/ Nac ydy (1)

Mae'r gerdd yn siarad am rygbi. Ydy/ Nac ydy (1)

Mae'r gerdd yn siarad am fachgeno'r enw Tom. Ydy/ Nac ydy (1)



1. Darllenwch am wyliau y ddau berson yma.

(25)

Read about the holidays of these two people.

Tanwen

Yn 2015, roeddwn i mor lwcus achos es i i Ffrainc ar wyliau am wythnos gyda'r teulu i gyd. Roeddwn i'n gyffrous iawn i hedfan o Gaerdydd achos doeddwn i ddim wedi bod mewn awyren o'r blaen. Roedd y daith yn fyr, dim ond un awr i gyrraedd Paris. Wrth lwc, arhoson ni mewn gwesty o'r enw Le Pigalle ar bwys y Sacré Coeur tua 7 cilomedr o'r Tŵr Eiffel. Roedd y gwesty yn gyfforddus ac yn enfawr. Aethon ni ar nifer o dripiâu ym Mharis ond fy hoff drip oedd mynd i'r Catacombs. Roedd hi mor ddiddorol i fynd dan ddaear. Es i ar long ar yr Afon Seine hefyd. Gwaetha'r modd, roedd fy mrawd yn teimlo'n sâl achos symudiadau'r llong. Y flwyddyn nesaf, hoffwn i fynd i'r Aifft achos baswn i'n dwli ar weld y pyramidiau a chael reid ar gamel. Rydw i wedi clywed bod cyfle i syrffio'r tywod yn yr anialwch hefyd. Mae'n swnio'n gyffrous!

(i) Atebwch y cwestiynua yn Gymraeg.

(10)

Answer the questions in Welsh.

1. Pryd aeth Tanwen i Ffrainc?

_____ (1)

2. Ble arhosodd hi?

_____ (1)

3. Sut oedd hi'n teimlo cyn fynd ar yr awyren?

_____ (2)

4. Beth oedd ei hoff drip?

_____ (2)

Meic

Pan oeddwn i'n bymtheg mlwydd oed, es i i Ddinbych-y-pysgod gyda'r teulu am wythnos. Rydyn ni'n byw ym Mhenybont felly dim ond awr a hanner yn y car. Roeddwn i'n edrych ymlaen at fynd ar wyliau achos rydw i wrth fy modd yn aros mewn carafán achos mae'n gyffrous. Bob bore, cawson ni frecwast mawr gyda wyau, selsig a bacwn. Aethon ni mewn i'r dref yn aml er mwyn edrych yn y siopau a chwarae ar y periannau yn yr arcêd. Es i i'r traeth gyda fy chwaer ac roedd hi'n heulog dros ben felly bwyton ni hufen iâ. Arhoson ni tua milltir o'r traeth ond doedd hi ddim yn cymryd yn hir i gerdded yna felly cerddais i'r traeth gyda fy nhad pob bore er mwyn mynd â'r ci am dro ar y tywod. Ar y diwrnod olaf, fy uchafbwynt i oedd mynd ar long i Ynys Bŷr i weld y mynachod. Roedden nhw'n creu persawr a phrynais i botel i fy nghariad. Roedd Dinbych-y-pysgod yn brysur achos mae'n lle poblogaidd iawn gyda thwristiaid. Mae llawer o safleoedd carafán a gwestai cyfforddus ar draws y dref ac mae digon o fwytai hyfryd ar gael os ydych chi eisiau pryd o fwyd blasus. Hoffwn i fynd yn ôl yn y dyfodol achos mwynheuais i'n fawr iawn.

5. Sut oedd Meic yn teimlo am aros mewn carafan?

(2)

6. Beth oedd uchafbwynt Meic?

(2)

(ii) Nodwch un peth sy'n debyg ac un peth sy'n wahanol rhwng Tanwen a Meic. (4)

	Tanwen	Meic
Beth sy'n debyg?		
Beth sy'n wahanol?		

- (iii) Mae Tanwen yn dweud “Y flwyddyn nesaf, hoffwn i fynd i’r Aifft achos baswn i’n dwli ar weld y pyramidiau a chael reid ar gamel”. Ydych chi’n cytuno? Rhowch reswm dros eich ateb **yn Gymraeg**.

*Tanwen says “Next year, I would like to go to Egypt because I would love to see the pyramids and ride on a camel”. Do you agree? Give reasons for your answer **in Welsh**. (3)*

- (iv) Mae Meic yn dweud “Rydw i wrth fy modd yn aros mewn carafán achos mae’n gyffrous”. Ydych chi’n cytuno? Rhowch reswm dros eich ateb **yn Gymraeg**.

*Meic says “I am in my element staying in a caravan because it’s exciting”. Do you agree? Give reasons for your answer **in Welsh**. (3)*

- (v) Ble hoffech chi fynd ar wyliau yn y dyfodol? Rhowch 2 reswm dros eich dewis **yn Gymraeg**. (Does dim rhaid dewis Cymru neu Ffrainc)

*Where would you like to go on holidays in the future? Give 2 reasons for your choice **in Welsh**. (You do not need to choose between Wales or France) (5)*

Ble?: _____

Rheswm 1: _____

Rheswm 2: _____

